# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 24 Tachwedd 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r grantiau sydd wedi cael eu darparu gan ei hadran i brosiectau yn Islwyn er mis Ebrill 2010. (WAQ56790)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Nid yw fy adran wedi rhoi grantiau penodol i Islwyn yn ystod y cyfnod hwn.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r grantiau sydd wedi cael eu darparu gan ei adran i ysgolion a cholegau yn Islwyn er mis Ebrill 2010. (WAQ56793)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Dyfarnwyd £605,000 o Grant Gwella Adeiladau Ysgolion i Gyngor Sir Caerffili yn 2010-2011; oherwydd pwysau economaidd, dygwyd hwn ymlaen i flwyddyn ariannol 2009-2010 i gynorthwyo'r awdurdod i gyflawni ei brosiectau â blaenoriaeth.
Ym mis Ebrill 2010 gwahoddwyd pob awdurdod yng Nghymru i gyflwyno cynigion ar gyfer y Drydedd Gyfran o arian grant cyfalaf Trawsnewid. Cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dri chynnig yn seiliedig ar egwyddorion Model Achos Busnes 5 Trysorlys EM. Ni lwyddodd y cynigion i gael arian.
Y bwriad yw i bob awdurdod lleol gyflwyno eu Rhaglenni Amlinellol Strategol ym mis Rhagfyr 2010, ar gyfer buddsoddiad arfaethedig dros gyfnod o 15 mlynedd. Yna caiff rhaglen genedlaethol ei llunio gan Dîm y Rhaglen, i'w hystyried gan Fwrdd Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a'i hargymell i'r Gweinidog.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r grantiau sydd wedi cael eu darparu gan ei adran i brosiectau yn Islwyn er mis Ebrill 2010. (WAQ56791)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

O ran grantiau uniongyrchol i brosiectau sy'n benodol i Islwyn, mae fy Adran wedi ariannu:

| **Cynllun Grant** | **Nifer y Grantiau a Dalwyd** | **Swm a Dalwyd £'000** |
|---|---|---|
| Cymorth Rhanbarthol Dewisol | 2 | 935 |
| Cyfalaf Cronfa Fuddsoddi Sengl | 4 | 1,233 |
| Refeniw Cronfa Fuddsoddi Sengl | 4 | 10 |
| **Cyfanswm y Grantiau a Dalwyd** | **10** | **2,178** |

Mae nifer sylweddol o grantiau wedi'u rhoi i Gyngor Bwrdeistref Caerffili y byddai trigolion a busnesau yn Islwyn yn cael budd uniongyrchol neu anuniongyrchol ohonynt. Ar sail leol y datblygir y prosiectau hyn ac felly cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol ydynt.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Karen Sinclair (De Clwyd):** Ac ystyried yr ymrwymiad y mae'r Gweinidog wedi'i ddangos i gryfhau swyddogaeth Rhwydweithiau Canser Rhanbarthol [Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol (3)-08-08, 0.01-91. 10am] beth mae hi nawr yn rhagweld fydd eu swyddogaeth ers adrefnu gwasanaethau iechyd ledled Cymru. (WAQ56795)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Ar ôl diwygio'r GIG yn 2009, mae Prif Weithredwyr y GIG yn rhoi trefniadau newydd ar waith ar gyfer y tri Rhwydwaith Canser rhanbarthol. Mae Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru, am fod un corff GIG yn cwmpasu'r holl ardal, wedi dod yn rhan o Fwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr. Mae'r Rhwydweithiau Canser ar gyfer y Canolbarth a'r De-orllewin ac ar gyfer De-ddwyrain Cymru yn uno i greu un Rhwydwaith ar gyfer De Cymru.
Bydd y trefniadau newydd hyn yn cysoni timau craidd y Rhwydwaith Canser yn fwy uniongyrchol â threfniadau cynllunio a darparu gwasanaethau'r BILlau, yn hyrwyddo cydweithio, yn osgoi dyblygu ac yn manteisio i'r eithaf ar sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth timau craidd y Rhwydwaith.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r grantiau sydd wedi cael eu darparu gan ei adran i brosiectau yn Islwyn er mis Ebrill 2010. (WAQ56794)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Mae'r Adran Dreftadaeth yn cynnwys arian ar gyfer Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, yn ogystal â Cadw a Croeso Cymru.

Mae'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn darparu grantiau i wahanol sefydliadau, gan gynnwys Awdurdodau Lleol a rhanbarthau. Caiff unrhyw grantiau gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg eu gwneud gan y cyrff hynny ac nid gan yr Adran Dreftadaeth. Felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn yr ateb hwn.

Nid yw Twristiaeth a Marchnata, sy'n cynnwys Croeso Cymru, wedi dyfarnu grantiau eleni.

Mae Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn darparu grantiau i Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg - Gwent, i helpu gwasanaethau cyngor ar reoli a chynllunio treftadaeth yn Islwyn ac i gefnogi gwaith y Cofnod Amgylcheddol Hanesyddol yn yr Ymddiriedolaeth. Cofnod (20,000) o safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol yw'r Cofnod Amgylcheddol Hanesyddol sy'n llywio'r broses gynllunio. Targedir y grant at wella ansawdd a chyflawnrwydd y cofnodion hyn. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl gwybod faint o'r grant a ddyfarnwyd yn benodol i Islwyn gan fod y grant i'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys yr holl ranbarth.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r grantiau sydd wedi cael eu darparu gan ei adran i brosiectau yn Islwyn er mis Ebrill 2010. (WAQ56792)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Mae prosiectau yn Islwyn wedi cael budd o'r grantiau canlynol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ers Ebrill 2010.
Mae'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol wedi dyfarnu £453,266 i ddau brosiect yn Islwyn.
Mae pedair ardal Cymunedau yn Gyntaf yn Islwyn: Cefn Fforest, Bargod Fawr, Trecelyn (Pantside); a Dyffryn Sirhywi Uchaf. Dyfarnwyd cyfanswm o £271,264 o gyllid ar gyfer cyfnod 2010-12.
Mae'r fenter Cynhwysiant Digidol Cymunedau 2.0 wedi dyfarnu £54,847 i ddau brosiect yn Islwyn.
Cafodd Islwyn £22,596 o gyllid o Gam 1 Prosiect Ariannu Undeb Credyd Cymru Gyfan. Rhoddwyd yr arian i ymestyn oriau agor yr Undeb Credyd, sefydlu pwyntiau casglu newydd a darparu hyfforddiant i chwech gwirfoddolwr arall ar reoli credyd. Ni wnaeth Islwyn gais am arian o Gam 2 y prosiect.
Darparwyd y cyllid refeniw canlynol gan Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol: talwyd £20,000 i Gymorth i Ferched Caerffili i gyflogi swyddog atgyfeirio/desg flaen ar gyfer Siop Un Stop Cam-drin Domestig yn Ystrad Mynach; talwyd £27,500 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gyflogi Cydgysylltydd Cam-drin Domestig; talwyd £10,000 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gyflogi Cynghorydd Cam-drin Domestig Annibynnol. Ceir arian cyfatebol gan y Swyddfa Gartref ar gyfer y swydd hon.

Cydlyniant Cymunedol - mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyllideb o £117,980 ar gyfer 2010-11 a hyd yma cytunwyd ar y prosiectau canlynol: Mapio Cymunedol - cynnal ymarfer mapio cymunedol mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a fydd yn adeiladu ar brosiect arall a gynhaliwyd i fapio ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn ystod 2009/10; Prosiect Hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth - i ddarparu hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i bartneriaethau cymunedol lleol; Cefnogi Dioddefwyr Troseddau Casineb - darparu gwasanaeth cymorth i ddioddefwyr troseddau casineb ar draws y Fwrdeistref Sirol; Prosiect Data Troseddau Casineb - cynnal ymchwil i droseddau casineb mewn ysgolion a cholegau.